

# Rhaglen Gyflawn



north wales economic ambition board  
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

**IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

Dyddiad ac Amser

**9.30 y.b., DYDD LLUN, 2AIL RHAGFYR, 2019**

Lleoliad

**Suite 4, Conwy Business Centre, Llandudno Junction, Conwy LL31 9XX**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**[annession@gwynedd.llyw.cymru](mailto:annession@gwynedd.llyw.cymru)**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 25 Tachwedd 2019)

# IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

## Aelodau a phleidlais

### Y Cynghorwyr

Robert G Parry  
Greg Robbins  
Gareth Wyn Griffith  
Brian Jones  
David Bithell  
Carolyn Thomas

Cyngor Sir Ynys Môn  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Gwynedd  
Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
Cyngor Sir y Fflint

## Aelod Cyswilt o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Cynghorydd Ian Roberts

Cyngor Sir y Fflint

## Swyddogion yn bresennol

Emlyn Jones  
Huw Percy  
Geraint Edwards  
Darren Williams  
Stephen Jones  
Dafydd Wyn Williams  
Iwan Prys Jones

Iwan G. Evans  
Dafydd L. Edwards

Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
Cyngor Sir y Fflint  
Cyngor Gwynedd  
Bwrdd Uchelgais Economaidd  
Gogledd Cymru  
Swyddog Monitro  
Swyddog Adran 151

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL 5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 23 Medi 2019 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 5. DIWEDDARIAD - BYSIAU RHANBARTHOL 10 - 22

Emlyn Jones i ddiweddarau aelodau ar y sefyllfa bresennol o ran Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSVAR) ac adnewyddu teithio rhatach am ddim.

## 6. DIWEDDARIAD AR Y CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â 23 - 26 CHYFYNGIADAU CYFLYMDER 20 MYA AR GYFER ARDALOEDD PRESWYL LEDLED CYMRU

Huw Percy a Stephen Jones i ddiweddarau'r Is-Fwrdd ar ddatblygiadau.

## 7. DIWEDDARIAD PARCIO AR BALMENTYDD 27 - 30

Huw Percy i ddiweddarau'r is-fwrdd ar ddatblygiadau.

## 8. PAPUR DIWEDDARU AR DDATBLYGIAD MABWYSIADU 31 - 34 'FFYRDD HEB EU MABWYSIADU' LEDLED CYMRU

Huw Percy i ddiweddarau'r is-fwrdd ar ddatblygiadau.

## 9. TRAFNIDIAETH CARBON ISEL 35 - 57

Cyflwyniad ar Bwyntiau Gwefru Cerbyndau Trydan gan Rhys Horan, Llywodraeth Cymru, a Geoff Murphy a Sarah Buckley, SPEN.

Papurau ychwanegol er gwybodaeth.

## **10. DYDDIADAU CYFARFODYDD 2020**

Cynnig fod y dyddiadau isod yn cael ei dynodi ar gyfer cyfarfodydd 2020

- 17.02.20
- 18.05.20
- 14.09.20
- 07.12.20

---

## IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH DYDD LLUN, 23 MEDI 2019

---

### Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cynghorwyr:- Greg Robbins (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Gareth Wyn Griffith (Cyngor Gwynedd), Brian Jones (Cyngor Sir Ddinbych), David Bithell (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam) a Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint)

Swyddogion yn bresennol – Geraint Edwards (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Emlyn Jones (Cynor Sir Ddinbych), Darren Williams (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Stephen Jones (Cyngor Sir y Fflint), Dafydd Wyn Williams (Cyngor Gwynedd), Iwan Prys Jones (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru), Iwan G Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Arweiniol), Peter Davies () ac Annes Sion (cofnodion – Awdurdod Arweiniol)

### **1. ETHOL CADEIRYDD**

Penderfynwyd ethol Cyng. David Bithell (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam) yn gadeirydd yr Is-Fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth

### **2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Penderfynwyd ethol Cyng. Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint) yn is-gadeirydd yr Is-Fwrdd Cyflawni Trafnidiaeth

### **3. YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Huw Percy a Dafydd L Edwards.

### **4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### **5. MATERION BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw fater bryd i'w drafod.

### **6. COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod anffurfiol y Grŵp Ymgynghorol Aelodau Cabinet Trafnidiaeth a gynhaliwyd ar 20 Mai 2019.

### **7. PROTOCOL A CHYFRIFOLDEBAU YR IS-GRŴP**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Evans

## PENDERFYNIAD

### Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chymeradwywyd y Protocol.

Penderfynwyd y bydd y Swyddogion, yn ystod y pythefnos nesaf, yn enwebu Swyddog Arweiniol a fydd yn mynychu pwyllgorau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru pan mae'r angen yn codi.

## TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi mai amcan yr adroddiad yw gosod trefniadau'r is fwrdd. Mynegwyd fod yr adroddiad yn amlinellu'r prif amcanion a nodwyd aelodaeth yr Is Fwrdd. Nodwyd mai prif newid fydd yw'r drefn pwyllgorau o ran agenda a chyhoeddi'r rhaglen. Pwysleswyd y bydd angen cyhoeddi'r rhaglen 5 diwrnod gwaith cyn yr is fwrdd ac y bydd angen i'r adroddiad drafft eu cyflwyno i'r Swyddogion Statudol ar gyfer sylwadau cyn cyhoeddi'r rhaglen. Pwysleiswyd oherwydd natur yr is fwrdd na fydd llawer o sylwadau gan y Swyddogion Statudol, er hyn oherwydd natur y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru efallai y bydd yn datblygu.

Mynegwyd y bydd pleidleisio yn mynd ar sail mwyafrif ac i geisio cael consensws ar draws yr awdurdodau ac o ganlyniad i hyn ni fydd pleidlais bwrw. Ychwanegwyd y bydd Taflenni Penderfyniad yn cael eu cyhoeddi yn nodi penderfyniadau'r Is Fwrdd Cyflawni Busnes.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Holwyd sut y bydd y dyddiadau a rhaglen a chofnodion yn cael eu rhannu ar draws yr awdurdodau. Nodwyd y bydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod arweiniol, ac yn cael ei rhannu ar wefannau cymdeithasol y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mynegwyd y byddai'r aelodau yn gallu rhannu'r e-bost rhaglen gyda'i chyd-gynghorwyr yn ei awdurdodau.
- Trafodwyd enwebu Swyddog Arweiniol, a nodwyd y bydd y Swyddogion yn enwebu swyddog arweiniol i fynychu'r Bwrdd Uchelgais pan mae'r angen yn codi yn ystod y pythefnos nesaf.

## 8. RHAGLEN A CHYNLLUN GWAITH Y GRWP

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Wyn Williams

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd enwau isod i arwain ar y gwahanol ffrydiau gwaith a chytunwyd ar y rhaglen amlinellol ar gyfer y tri chyfarfod nesaf o'r Is-grŵp.

LLIF GWAITH	SWYDDOGION ARWEINIOL
Cludiant Cyhoeddus (bysus) i gynnwys Cludiant Addysg	Peter Daniels (Sir Ddinbych), David Hesketh (Wrecsam)
Trafnidiaeth Garbon Isel	Dafydd Williams (Gwynedd), Geraint Edwards (Conwy), Stephen Jones (Sir y Fflint)
Teithio Llesol	Peter Daniels (Sir Ddinbych), Dafydd Williams (Gwynedd)

Cydbwyllgor Corfforaethol	pawb
Trenau	Darren Williams (Wrecsam), Stephen Jones (Sir y Fflint)
Cyfyngiadau 20mya a pharcio ar y droedffordd	Huw Percy (Ynys Môn), Stephen Jones (Sir y Fflint)
Ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu	Geraint Edwards (Conwy), Huw Percy (Ynys Môn)
Diogelwch Ffyrdd (Addysg, Hyfforddiant a Chyhoeddusrwydd)	Darren Williams (Wrecsam), Huw Percy (Ynys Môn)
Priffyrdd Strategol (gwelliannau)	Cysylltu ag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi yn dilyn y cyfarfod blaenorol fod y Swyddog Arweiniol a Swyddog y Bwrdd Uchelgais wedi bod yn gweithio ar y gwaith cefndirol er mwyn gweithio ar y cyd yn rhanbarthol a rhannu'r llwyth gwaith. Tynnwyd sylw at y tabl a grëwyd sydd yn nodi'r Swyddogion a fydd yn arwain ar y prif ffrydiau gwaith. Esboniwyd mai rôl y swyddog fydd i ddarparu'r adroddiadau a gwybodaeth bellach yn y meysydd yma.

Nodwyd yn ystod y 3 cyfarfod nesaf y bydd yr Is-Fwrdd yn ystyried yr holl ffrydiau gwaith ac y bydd yn gyfle i roi cyfeiriad i'r gwaith i'r dyfodol yn cael ei drafod a'i gytuno.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Trafodwyd os oes angen trafod yr eitemau yn lleol ac yn rhanbarthol, gan fod rhai o'r ffrydiau gwaith yn cael effaith ymylol ar fusnes er hyn fod y ffrydiau yn cyfrannu ar faterion eraill.
- Mynegwyd fod y rhain yn cyd-fynd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Nodwyd ei bod yn syniad cychwyn ar ffrydiau gwaith ac yna ychwanegu neu dynnu ffrydiau gwaith fel mae'r angen.
- Pwysleisiwyd fod y Bwrdd Uchelgais yn hapus a'r ffrwd gwaith.
- Nodwyd fod y ffrydiau gwaith yn cael ei rhannu rhwng Swyddogion ac y bydd y Swyddogion yn cyfarfod ar wahân i drafod yr adroddiadau yn symud ymlaen. Mynegwyd y bydd ffrydiau gwaith yn datblygu a nodwyd pwysigrwydd i beidio gadael i neb fod o dan bwysau mawr ac i beidio cael eu gorlwytho. Mynegwyd fod angen rhannu'r gwaith yn hafal dros y rhanbarth ac i rannu'r baich a chefnogi ei gilydd.
- Pwysleisiwyd o ran y Swyddog sydd yn cyd fynd a'r lliw gwaith mai rôl arweiniol fydd hyn ac na fyd angen gwneud y gwaith i gyd.

## 9. CLUDIANT CYHOEDDUS

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Iwan Prys Jones a Peter Daniels

### PENDERFYNWYD

Nodwyd a derbyniwyd yr adroddiad.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi'r problemau sydd wedi codi o ran y drefn ail ddyrannu tocynnau teithio mantais am ddim sydd yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2019. Mynegwyd fod y wefan er mwyn ail gofrestru wedi cwmpo a phwysleisiwyd fod angen gwneud

rhywbeth dros y Gogledd. Er hyn, nodwyd fod Trafnidiaeth Cymru wedi nodi y bydd mwy o adnoddau i gynorthwyo'r cynghorau ac y bydd y wefan yn ôl ar lein cyn diwedd yr wythnos. Pwysleisiwyd fod llawer o effaith wedi bod ar y cynghorau.

Pwysleisiwyd fod Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd newid i'r oedran y bydd pobl yn gallu ymgeisio am y Tocynnau Teithio Mantais am ddim ac o ganlyniad fod nifer uwch o bobl wedi ymgeisio cyn i'r oedran newid. Mynegwyd fod problemau wedi codi ar lein ac yn nad yw pawb yn ymwybodol o'r newid. Nodwyd fod y sefyllfa yn un anodd gan fod Trefniadaeth i Gymru ar-lein a bod ymgeiswyr yn cael eu cyfeirio at eu cynghorau lleol er mwyn cael cymorth i fynd ar-lein. Gan fod y wefan wedi cwmpo mae ffurflenni papur ar gael dros dro. Mynegwyd fod gan y cynghorau capasiti i gynorthwyo i raddau o ran os wedi colli eu tocynnau neu ag anabledau ond fod ail ymgeisio am y tocynnau a niferoedd llawer uwch. Nodwyd sut mae gwahanol awdurdodau wedi delio a'r mater.

Pwysleisiwyd fod y mater hwn yn un sydd yn datblygu, a bod Trafnidiaeth Cymru wedi nodi y bydd adnoddau ychwanegol yn cael ei gynnig dros dro. Nodwyd y bydd yr Is-grŵp yn anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn nodi fod pryder am y mater yn y tymor hir o ran tocynnau teithio. Penderfynwyd fod angen holi Llywodraeth Cymru am gynllun tymor hir a beth fydd effaith hyn ar Lywodraeth Leol, os bydd popeth yn ei le erbyn amser diwedd mis Rhagfyr ac os yw'r ddeddf cydraddoldeb wedi ei ystyried.

#### Newidiadau i'r Rheoliadau Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus

Nodwyd ym mis Ionawr y bydd ofyniad Rheoliadau Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael ei ymestyn i bob coets sydd yn codi pryderon gan nad oes gan lawer o goets fynediad i gadeiriau olwyn. Holwyd os bydd yn effeithio trafndiaeth ysgolion a nodwyd na fydd oni bai fod awdurdodau yn codi ffi am gael trafndiaeth. Mynegwyd fod pob awdurdod am gael ei daro efallai ddim yn ariannol ond yn wleidyddol.

Mynegwyd mai'r prif fater yw nad oes digon o gerbydau ar gael gyda'r mynediad fydd ei angen. Nodwyd beth oedd rhai awdurdodau yn ei wneud ond pwysleisiwyd y bydd yn codi problemau. Esboniwyd i raddau fod dau opsiwn i dalu am gerbydau newydd neu i beidio codi ffi ond mynegwyd fod effaith os yn gwneud yr ail elfen. Trafodwyd efallai yn ei fod yn syniad i anfon llythyr ar y Gweinidog i gael cyfnod trosiannol er mwyn rhoi cyfle i'r awdurdodau i weithio ac i weld sut mae am effeithio rhai ysgolion sydd â chytundebau preifat. Pwysleisiwyd y bydd mwy o effaith ar ardaloedd gwledig felly bydd angen gwneud asesiad effaith ar ddisgyblion.

Nodwyd y bydd modd cyfuno'r ddau fater - Newidiadau i'r Rheoliadau Cerbydau Gwasanaeth cyhoeddus a'r Tocynnau Teithio Manteisio am ddim i un llythyr i Lywodraeth Cymru.

#### Adolygiad o'r Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol

Mynegwyd fod angen adnodd ychwanegol i edrych ymhellach i mewn i hyn a bod briff wedi ei greu ac y bydd yn cael ei anfon allan yn yr wythnosau nesaf. Ychwanegwyd y bydd yr adolygiad yn cael ei ariannu gan arian Lywodraeth Cymru ar gyfer Cydlynu Bysiau yn Rhanbarthol. Pwysleisiwyd gobeithio y bydd modd i'r adolygiad weld os oes datrysiadau i'r problemau sydd i'w gweld yn y rhanbarth.

Tynnwyd sylw ar y Papur Gwyn Trafnidiaeth gan nodi ei fod yn canolbwyntio ar reoli rhwydwaith bysiau. Ychwanegwyd y bydd angen edrych ymhellach i'r Papur Gwyned newydd sydd yn fod i'w gyflwyno ym mis Hydref.



Cyflwynwyd gan Iwan Prys Jones

## **TRAFODAETH**

Trafodwyd yr Arolwg Gwefru gan SP Energy gan nodi eu bod yn gobeithio y bydd modd iddynt ddod i'r cyfarfod nesaf er mwyn rhoi diweddariad.

O ran datgarboneiddio mynegwyd y byddai'n syniad da i'r 6 rhanbarth ddod ar ei gilydd i drefnu Uwch Gynhadledd ar hyn y flwyddyn nesaf, ac y buasai yn cefnogi gwaith y Bwrdd Uchelgais. Os yn ymuno a'i gilydd yn rhanbarthol i'r drefnu mynegwyd y byddai cefnogaeth ar gael gan Lywodraeth Cymru.

Ychwanegwyd y byddai llawer o gyfleoedd ac ei fod yn gyfle i weithio gyda'i gilydd. Mynegwyd mai'r brif broblem yw trafnidiaeth. Ategwyd fod angen chwyldro a mynegwyd fod cynnal Uwchgynhadledd am roi datganiad clir i'r cyhoedd. Nodwyd fod angen mynd a'r cynnig i'r Bwrdd Uchelgais i gael yr Uwchgynhadledd a fydd yn trafod Ynni, Hwb / Cwmni Ynni Rhanbarthol ynghyd a Thrafnidiaeth.

O ran prosiect Peilot Bysiau Gwyrdd nodwyd y cynlluniau peilot gan nodi eu bod yn gobeithio rhannu'r adroddiad yn y cyfarfod nesaf i gael trafodaeth bellach.

### **11. DIWEDDARIAD FFRYDIAU GWAITH**

Derbyniwyd diweddariad o ran ffrydiau gwaith a oedd yn cynnwys ardaloedd 20mya a pharcio ar balmentydd, gan nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno.

O ran Ymgyrch Growth Track 360 - Diweddariad mynegwyd fod Arriva wedi ailedrych ar gostau'r parthau amrywiol, a nodwyd y bydd angen mwy o esboniadau dros y parthau ac ymatebiad o ran ticedi integredig. Nodwyd fod angen i aelod o staff Arriva ddod i'r Is-grŵp i drafod y mater.

Dechreuodd y cyfarfod am 9.30 y.b. a daeth i ben am 11.25 y.b.

## **CADEIRYDD**



north wales economic ambition board  
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I'R IS FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH  
DYDDIAD**

---

**Testun:** **DIWEDDARIAD – BYSIAU RHANBARTHOL**  
**Awdur:** EMLYN JONES – Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd  
[PETER DANIELS] – CYNGOR DINBYCH

---

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. Diweddarau aelodau ar y sefyllfa bresennol o ran Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSVAR) ac adnewyddu teithio rhatach am ddim.

**2. Penderfyniad a Geisir**

2.1. Gofynnir i'r Is-grŵp Cyflawni Trafnidiaeth ystyried y sefyllfa bresennol, holi'r swyddogion rhanbarthol yn ôl yr angen, cynnig sylwadau ar gyfer teithio am ddim, nodi er gwybodaeth, ac ystyried unrhyw gamau ychwanegol yr hoffai'r Is Grŵp eu cymeryd mewn perthynas â trafndiaeth dysgwyr[PSVAR]

**3. Cefndir ac Ystyriaethau perthnasol**

**RHEOLIADAU HYGyrCHEDD CERBYDAU GWASANAETH CYHOEDDUS (PSVAR)**

3.1 Bydd yr aelodau'n cofio, o fis Ionawr 2020, bod Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (2000) (PSVAR) yn berthnasol i unrhyw gontractau cludo dysgwyr caeedig lle mae rhieni yn cyfrannu tuag at gost cludiant. O dan y PSVAR, bydd angen i fysiau a ddefnyddir mewn amgylchiadau o'r fath, ymhlith pethau eraill, o hyn ymlaen fod yn gwbl hygyrch

3.2 Ar 21 Tachwedd, 2019, derbyniodd cynghorau lleol lythyr gan yr Adran Drafndiaeth (DfT) yn egluro'r broses lle gallai awdurdodau wneud cais am estyniad i'r broses PSVAR. Yn ddarostyngedig i fodloni meini prawf penodol, byddai'r DfT yn ardystio cerbydau unigol i'w heithrio o'r gofynion tan fis Rhagfyr 2021. Wedi hynny, mae goblygiad y gall estyniad pellach fod yn berthnasol ar gyfer hyd at hanner y ffylod cludo dysgwyr tan fis Rhagfyr 2023.

- 3.3 Er bod swyddogion yn croesawu'r trefniadau hyn, mae yna nifer o faterion yn codi, ac yn benodol nad yw'r DfT yn cynnig unrhyw randdirymiad ar gyfer cludo dysgwyr. Mae pryder hefyd fod eithriad ond yn berthnasol os na werthir mwy nag 20% o seddi ar fysiau (yn hytrach na'u defnyddio ar gyfer dysgwyr cymwys neu eu gadael yn wag). Mae mwyafrif o wasanaethau ysgol/coleg gyda mwy nag 20% o seddi wedi'u gwerthu ac byddai'r gofyniad hwn yn golygu na fyddai awdurdodau yn gallu codi tâl o dan amgylchiadau o'r fath, oni bai bod y cerbyd yn cydymffurfio'n llawn â'r PSVAR. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch tegwch.
- 3.4 Pryder arall sydd yn parhau yw na fyddai cerbydau hygyrch ar gael o'r gronfa ail law yn debygol o fod yn ddigonol ar gyfer trawsnewid fflyd trafndiaeth ysgolion ledled Prydain, hyd yn oed erbyn mis Rhagfyr 2023. Bydd gan y buddsoddiad ar y raddfa sydd ei angen oblygiadau nid yn unig i awdurdodau ond hefyd i fusnesau teuluol bychain.
- 3.5 Er mwyn cydymffurfio â cheisiadau'r DfT mae swyddogion yr awdurdodau lleol unigol ar hyn o bryd yn mynd drwy broses eithaf biwrocraidd i grynhoi'r wybodaeth eithrio ofynnol erbyn 13 Rhagfyr. Mae hyn ar ofyn ewyllys da contractwyr lleol. Byddai methu derbyn yr ardstiad angenrheidiol yn golygu na fyddai cerbydau penodol yn medru cludo dysgwyr y mae eu rhieni wedi talu am y gwasanaeth. Mae'r amserlen yn dynn.

#### **DIWEDDARIAD: ADNEWYDDU TOCYNNAU TEITHIO MANTAIS AM DDIM**

- 3.6 Mae'r pwysau a achoswyd gan nifer y ceisiadau wedi lleihau rhywfaint, er bod hyn wedi'i ddisodli mewn rhai awdurdodau gan bobl sy'n ail-ymgeisio ac yn cyflwyno'u dogfennau i'w gwirio, yn dilyn ceisiadau unigol iddynt wneud hynny gan Trafnidiaeth Cymru. Mae nifer hefyd yn galw heibio i ofyn pryd y byddant yn derbyn eu tocyn newydd. Mae'r achosion hyn yn parhau i fod ar draul y gwasanaethau eraill a ddarperir gan staff y ganolfan gyswllt. I ymateb i'r angen, roedd TC wedi darparu cefnogaeth staffio dros-dro i rai awdurdodau, ond mae'r gefnogaeth bellach wedi dod i ben.
- 3.7 Roedd ymarferwyr yn disgwyl cynnydd sydyn o ddiwedd mis Hydref 2019 ar ddechrau ymgyrch TC yn y cyfryngau. Nid yw hyn wedi'i wireddu'n llwyr. Mae'n ymddangos bod nifer o ddefnyddwyr gweithredol wedi adnewyddu eu tocynnau yn ystod y "panig" yn ystod mis Medi a dechrau mis Hydref.
- 3.8 Ar 12 Tachwedd 2019, canran y ceisiadau ar draws y rhanbarth ar gyfer defnyddwyr gweithredol (sef defnyddwyr sydd wedi teithio o leiaf chwe gwaith yn ystod y tri mis diwethaf) oedd:

Conwy	71%
Sir Ddinbych	64%
Sir y Fflint	71%
Gwynedd	65%
Ynys Môn	63%
Wrecsam	70%
Y gorau yng Nghymru hyd yma	78%
Y gwaethaf yng Nghymru hyd yma	46%
Cymedr	68%

- 3.9 Mae'n bosib nad yw'r data yn gywir os yw'r gronfa ddata yn parhau i gynnwys enwau pobl sydd wedi marw.
- 3.10 Mae'r canrannau hyn yn cynnwys pobl sydd wedi cwblhau'r broses ail-ymgeisio, ond nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu nifer y bobl sydd wedi gwirio eu manylion neu wedi derbyn eu tocynnau. Mae'r amser a gymerir i ymgeiswyr dderbyn eu tocyn bws yn amrywio; mae rhai yn parhau i ddisgwyl er iddynt gyflwyno cais ym mis Medi, ac eraill eisoes wedi derbyn eu tocynnau. Mae TC ar hyn o bryd yn rhoi blaenoriaeth i anfon y tocynnau.
- 3.11 Mae gwaith sylweddol yn dal i'w wneud er mwyn cyrraedd 100% o'r teithwyr gweithredol erbyn y dyddiad cau, sef 31 Rhagfyr 2019. Mae'r posibilrwydd o streic gweithwyr post cyn y Nadolig yn pylu, ond mae'n bosib y bydd oedi tymhorol arferol gyda'r gwasanaethau post. Yn ymarferol, mae perygl na fydd pobl yn derbyn eu tocyn os nad ydynt wedi cyflwyno cais erbyn canol fis Rhagfyr. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd pobl sy'n dymuno gofyn cwestiynau am y broses adnewyddu neu dderbyn cefnogaeth gan staff cyswllt yn canfod fod eu canolfannau lleol ar gau ar ôl Noswyl Nadolig. Mae dadlau yn parhau ynghylch p'un a gynigir unrhyw gyfnod gras i bobl â'r hen docyn, a beth fydd hyd y cyfnod hwnnw. Mae'n anorffod y bydd estyniad, ond bydd yn cael effaith ar y cyllidebau teithio am ddim, gan y bydd gyrrwyr yn gorfod mewnbynnu'r wybodaeth eu hunain, rhywbeth y bydd pawb yng Nghymru yn awyddus i'w osgoi cyn belled ag y bo modd am resymau amlwg.
- 3.12 Prin yw'r diweddariadau a'r cyfathrebu gan TC, gyda'r neges ddiwethaf tua tair wythnos yn ôl. Ar un llaw, mae hyn yn gadarnhaol, gan fod llai i'w adrodd. Ar y llaw arall, nid oedd yr awdurdodau yn ymwybodol y gallant orfod ymdrin â'r broses wirio wyneb-yn-wyneb ddilynol, er enghraifft (ar gyfer rhai ymgeiswyr y tybiwyd eu bod yn llwyddiannus). Nid yw staff TC ychwaith wedi gallu cyfarfod ag ymarferwyr. Nid yw staff y Cynghorau ar draws y rhanbarth yn gallu ateb holl gwestiynau'r ymgeiswyr, ac o ganlyniad mae'r ymarferwyr yn gallu ymddangos fel petaent yn anwybodus.
- 3.13 Yn y cyfamser, ar ôl mis Ionawr 2020, er bod y cytundeb rhwng pob awdurdod a TC yn dod i ben, mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio ymestyn y cytundeb ar ei ffurf bresennol tan 31 Mawrth 2020, i roi sicrwydd a pharhad.

**4. Goblygiadau Ariannol**

- 4.1 Mae'r goblygiadau o ran PSVR gan gynnwys unrhyw ostyngiad mewn incwm gan rieni yn fater i awdurdodau unigol nawr ac yn y dyfodol ac nid i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd
- 4.2 Ar wahân i unrhyw ganlyniadau tymor byr i gyllidebau staffio awdurdodau unigol wrth gefnogi Tfw yn y broses ail-ymgeisio, teimlir y bydd unrhyw oblygiadau ariannol parhaus yn disgyn ar Lywodraeth Cymru, sy'n ad-dalu awdurdodau lleol am deithiau teithio am ddim a wnaed.
- 

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

- i. **Swyddog Monitro yr awdurdod lletyol:**  
Fel y nodir yn yr adroddiad mae'r elfen o ansicrwydd yn parhau ynglŷn a'r sefyllfa yma ac amlygir y gwaith fydd ei angen ar gyfer manteisio ar unrhyw eithriad
- ii **Swyddog Cyllid yr awdurdod lletyol:**  
Cadarnhaf fod rhan 4 o'r adroddiad yma'n egluro'r ymhllygiadau ariannol yn gywir.

---

## **HIGHWAYS AND TRANSPORT UPDATE**

### **Purpose**

1. This report provides an update on highways and transport issues of Wales-wide significance including the Public Service Vehicle Accessibility Regulations and on proposals to introduce a 20mph default speed limit and impose restrictions on pavement parking.

### **Background**

2. There are a number of important developments taking place in relation to highways and transport that will impact on all local authorities. This report looks at each of these in turn and highlights key issues.

### **Public Service Vehicle Accessibility Regulations**

3. The Public Service Vehicle Accessibility Regulations (PSVAR) were introduced in 2000 to improve access to buses for people with disabilities. The Regulations apply to all new public service vehicles (buses or coaches):
  - introduced since 31 December 2000
  - with a capacity exceeding 22 passengers
  - used to provide a local or scheduled service.
4. Part of the definition of both local and scheduled services is that a fare (direct or indirect) is paid to travel. Any service provided without charge is excluded from the Regulations. It has been common practice, however, for local authorities to offer, for a fare, spare seats to those not entitled to free home to school transport. This has been seen as providing benefits all around: pupils can get a bus to school, congestion and emissions are reduced and income is generated for local authorities. Significantly, the transport needs of pupils requiring accessible vehicles have generally been met through bespoke arrangements.
5. The Regulations have come into force for different categories of PSV at different time (e.g. new buses and coaches were required to have wheelchair access since 2005; older buses by 2016). All coaches are required to be compliant by 1<sup>st</sup> January 2020.
6. Section 175 of the Equality Act 2010 makes a breach of the Regulations a criminal offence and states that a person commits an offence by:
  - contravening a provision of the PSVAR

- using on a road a regulated public service vehicle which does not conform with a provision of the regulations with which it is required to conform
  - causing or permitting such a regulated public service vehicle to be used on a road.
7. It was widely believed by local authorities – across England and Wales - that home to school services operated by coaches with a capacity exceeding 22 passengers were exempt from the Regulations, regardless of whether spare seats were being sold. However, a case has been brought in North Yorkshire involving a private prosecution against a named officer of the Council. The claim is that allowing home to school transport services that are not compliant with the Regulations is an offence under S175 of the Equality Act.
  8. North Yorkshire Council has taken legal advice on the issue. They have been told that there is a legal argument that by charging for spare seats on home to school transport, coaches used on those journeys may be brought within the requirements of the Regulations. Whilst there has been no case law regarding this point the courts could take the view that they are in breach of the legislation.
  9. The Council considered four options: (a) do nothing (b) use compliant vehicles on routes where at least one child is paying (c) cease transporting non-entitled students or (d) cease charging. Options (a) to (c) were seen variously as exposing the council to risk, impractical, uneconomic or having a negative impact on pupils, parents and the environment. The Council has therefore selected option (d) and will stop the current practice of charging for spare seats pending further clarification and/or guidance from Government.
  10. Local authority transport officers, via the Association of Transport Co-ordinators (ATCO) in Wales, are concerned it has only recently come to light that the PSVAR are to be applied to home to school transport. They now have very little time to procure new contracts and, in any case, the companies providing the transport do not currently have vehicles that meet the accessibility requirements. In many cases these companies would be unable to afford new, compliant vehicles and this could put their businesses at risk.
  11. WLGA has been in close contact with the LGA on this issue. LGA have been in dialogue with the UK Government's Department for Transport (DfT), which is responsible for the Regulations. DfT argue that as the Regulations were introduced in 2000 local authorities have had almost 20 years to prepare. However, the reason why there has been no preparation is that, until now, no-one interpreted the regulations as applying to home to school transport provision.
  12. DfT also argue that the Government is committed to supporting an inclusive transport network: children with disabilities should not be prevented from travelling with their non-disabled peers by the inaccessibility of the vehicles providing services. Whilst this inclusive approach is laudable and hard to argue

against, local authorities report that in many cases parents and children themselves prefer, and want to retain, their bespoke arrangements.


13. WLGA has taken these matters up directly with the DfT, highlighting the potential for perverse and negative effects associated with loss of a current service, more trips by car and the impact of reduced income on service provision. The point has also been made that this will impact in some areas on Welsh medium and denominational schools, where non-entitled pupils depend on this form of transport to get to their school of choice. Furthermore, in some cases, local authorities have reported that coach transport to schools has been arranged by schools/parents directly, not via the local authority. These services would be affected in the same way.
14. In light of all the above, WLGA asked the DfT for a derogation to exempt contracted school transport journeys that are closed to the general public. However, the response we have received is that they are more likely, instead, to use their exemption powers to provide a transitional period between the current situation and full compliance.
15. With the recent calling of a General Election it is currently difficult to progress this any further. Indeed, a major concern is that the default 'business as usual' civil service stance will be that the regulations come into force on 1<sup>st</sup> January 2020. Consequently, the LGA has written to DfT asking if they will be making a decision on this soon or if it is likely to be after we have a new government. If there is any feedback or any further developments, a verbal update will be given at the meeting.

## **20mph default speed limit**

16. In Mark Drakeford's 2018 Labour Leadership Manifesto he pledged to: "*encourage a presumption of 20mph speed limits in residential areas*". Lee Waters, Deputy Minister for Economy and Transport, is leading work on this for Welsh Government. He called for a Task and Finish Group to be established with the remit to come forward with a clear plan for how a default 20mph limit (as opposed to more limited 20mph zones) can be introduced.
17. WLGA has worked with Welsh Government to help convene the Group, with local authority representation from each region, along with a range of groups supportive of the proposals. The Group has set up four sub groups charged with looking at:
  - Outcomes, evaluation and monitoring
  - Legislation and Policy
  - Exceptions, Engineering and Enforcement
  - Promotion and Communications.
18. The intention is that 20mph would become the new default speed limit, instead of 30mph in residential areas. A process has been proposed to agree exceptions, enabling some routes to retain existing speed limits – see Fig 1.



**Fig1. Proposed process for determining exceptions from a 20mph limit**



19. The key to this would be, first, how the 'Principal Urban Network' is defined (e.g. using criteria such as whether the route is: a trunk road; dual carriageway; an A and B Classified Road; an Abnormal Load Route; Motorway Diversion; long distance bus/coach route).
20. Second, would be a decision as to whether a road that is included as part of the Principal Urban Network is 'place critical'. In other words, do the characteristics of the place the road is passing through warrant a 20mph speed limit – e.g. what land uses are adjacent to the route? (residential? industrial? retail?); are there active travel routes alongside or crossing the road? What is the evidence regarding local collisions? poor air quality? Noise levels? What is the existing average speed of traffic? What are the engineering considerations relating to the stretch of road – is it straight with good visibility? already traffic calmed? etc. Discussions have taken place with Transport for Wales to look at a GIS-based methodology for putting the above process into practice across Wales, drawing on a wide range of data.
21. The group's aim is to take a set of recommendations on how to implement the proposals to the Minister and Deputy Minister for Economy and Transport next Summer. If agreed, the intention would be to mount a substantial

communications campaign to raise awareness of the proposals. Intensive work would be needed with local authorities and local communities to review initial suggestions as to where the 20mph limits would be applied and where exceptions would be allowed. Traffic Regulation Orders would need to be introduced in a co-ordinated way across Wales to apply exceptions. Given the time all of this will take, it is likely that implementation will not occur before 2023.

22. A change-over to 20mph default would almost certainly have to take place on a specific date across the whole of Wales. All necessary steps, including changes to signage would need to be in place by that time. This preparatory period would also provide time for necessary communications work to be undertaken to raise public awareness. Communications will be especially important in terms of cross-border traffic.
23. Enforcement of 20mph limits once introduced would be a critical issue, for local authorities and the police. There are already numerous complaints about excessive speeds on 30mph residential streets. There could also be an increase in demand for hard infrastructure if speeds do not reduce.

## **Pavement parking**

24. Pavement parking poses several problems for local authorities:
  - Inconsiderate parking creates potentially dangerous hazards for pedestrians, particularly those who are vulnerable, such as older people, disabled people and families with pushchairs
  - Damage to paths and pavements creates trip hazards and is costly to repair
  - The general public frequently report cases of vehicles causing an obstruction and assume local authorities can take enforcement action. In fact, authorities currently have only very limited powers and it is generally a matter for the police.
25. Pavement parking is already illegal in London and a nationwide ban has recently been introduced in Scotland. In September, the UK's Transport Select Committee published a report on pavement parking in England, calling on the UK Government to introduce a ban and provide stronger, clearer laws.
26. For Wales, at an Active Travel Conference on 4<sup>th</sup> July, the Deputy Minister for Economy and Transport, Lee Waters, announced plans to set up an expert group to explore ways of clamping down on illegal parking, including pavement parking.
27. More recently, he has stated: "*Pavement parking is a real problem for our communities and acts as a barrier to encouraging active travel. I want people of all ages and abilities to feel confident and safe when making every day journeys by walking or cycling, which can help us tackle obesity, air pollution and the climate emergency. Our expert group is considering the options*

*available to us as we look to tackle pavement parking and redress the balance of power in our urban environment”.*

28. The Group that has been formed includes a wide range of stakeholders and interest groups. For local government, officers from local authorities in each region of Wales are invited along with WLGA.
29. The Group’s view is that pursuing a specific nation-wide ban on pavement parking would be inappropriate for Wales at this time. It would require primary legislation and that would introduce a significant delay. Furthermore, it could create major challenges for communities, especially where there are narrow residential streets that necessitate pavement parking. There would be significant immediate costs, too, as Traffic Regulation Orders and signage would be needed to *permit* pavement parking where it is unavoidable. It would be more practical to allow local authorities to introduce these over the longer term, where they are considered necessary.
30. The Chief Adjudicator of the Traffic Penalty Tribunal and a representative from the joint local government committee PATROL (Parking and Traffic Regulations Outside London) sit on the Group. They are advocating an alternative, quicker approach. This would involve secondary legislation, adding obstruction of the highway to the list of contraventions where civil parking enforcement (CPE) can be used (contained in Part 1 of Schedule 7 of the Traffic Management Act of 2004). As all local authorities in Wales now undertake CE this proposal has considerable merit. It is being explored further by the group – if only as an intermediate measure to enable other approaches to be considered at some point in the future.
31. The Group has set out a number of actions that would be key to the success of the proposals outlined in para 28:
  - Production of statutory guidance on CPE to reflect the additional power
  - Meaningful local consultation with stakeholders and local publicity ahead of changes to local enforcement policy
  - Public information to reinforce that inconsiderate pavement parking is not acceptable
  - The development of enforcement policies by local authorities that are proportional to need
  - Use of warning notices on the first occasion a vehicle is identified as causing an offence.
32. This approach would have the advantage that CPE could be undertaken on a prioritised basis, focusing on those areas that cause the greatest problems, whilst allowing local authorities to implement measures to permit unavoidable pavement parking over the longer term. Clarity for the public will be essential, though, or else enforcement will be problematic.
33. Civil Enforcement Officers are already working across Wales on a range of enforcement issues. The Group has suggested it would be useful if they could be asked, for an agreed period, to keep a record of pavement obstructions they

encounter where they *would* impose a penalty if they were able to. This would help to assess the scale of the problem.

34. As with the 20mph work, the intention is to take recommendations to the Minister/Deputy Minister to get agreement on the way ahead for managing pavement parking. Before such recommendations can be made, though, the views of local authorities and the police are sought to gain approval in principle. If approved by the Minister, then a formal consultation will take place before adding obstruction to the list of parking contraventions.

## **Recommendations**

### **35. Members are asked to:**

- 33.1 note the latest situation regarding PSVAR and agree any further action required**
- 33.2 give their views on the current proposals in paras 18-20 for taking forward the default 20mph proposals**
- 33.3 confirm if they support, in principle, the proposal on pavement parking to add obstruction of the highway to the list of contraventions where civil parking enforcement (CPE) can be used.**

---

**Report cleared by:**

**Cllr Andrew Morgan  
Spokesperson for Transport, Environment  
and Sustainability**

**Author:** Tim Peppin  
Director of Regeneration and Sustainable Development  
**Tel:** 02920 468669  
**E-mail:** [tim.peppin@wlga.gov.uk](mailto:tim.peppin@wlga.gov.uk)

Department for Transport  
Great Minister House  
33 Horseferry Road  
London  
SW1P 4DR

Your Ref/Eich Cyf  
Our Ref/Ein Cyf  
Date/Dyddiad  
Ask for/Gofynner am  
Direct Dial/Rhif Union  
E-mail/E-bost

DAB/ACW  
25 November 2019  
Councillor David A Bithell  
01978 292586  
davida.bithell@wrexham.gov.uk

By E-Mail -  
HomeToSchoolExemptions@dft.gov.uk

Dear Sir/Madam

### **Public Service Vehicles Accessibility Regulations 2000**

I write in response to the letter issued on 21 November 2019 concerning the Public Service Vehicles Accessibility Regulations 2000 and temporary exemptions. It is noted that the only exemption relates to those mixed home to school services whereby no more than 20% of the seats on the vehicle are sold.

This was not what was expected and falls short of the requirements needed to ensure continuity of home to school services for students beyond 31 December 2019. Unfortunately, this exemption will only allow apply to a very limited number of existing services, mainly those statutory services provided by the Council and where spare seats are made available, at a cost, to 'non-qualifying students' (ie concessionary travel passes). For the current academic year, the Council has only granted 13 concessionary travel passes.

Of significant concern are the number of privately procured service contracts between schools and local operators for the transport of 'non-qualifying' Home to School students. These services will not meet the DFT exemption criteria and will, therefore, cease to operate as from 31 December 2019. The impacts of which are such that it is anticipated that a significant number of students will be left with no viable means of accessing their current place of education.

Whilst Wrexham Council is fully supportive of the regulations governing the requirement for public service vehicles to be accessible, it is evident that the industry has not evolved to ensure compliance with PSVAR and the capacity does not currently exist to meet the impending demands. The late notice of this decision by the DFT has afforded very little time for those schools affected to mitigate the impacts and communicate effectively with the parents/guardians of those students affected. This coupled with the fact that the timing of announcement has been made during the pre-election period.

Wrexham Council is requesting that the DFT urgently consider extending the exemption criteria to allow for those identified services to continue to operate from 1 January 2020. I have raised this immediate concern with both the Welsh Government and the Welsh Local Government Association and will be co-ordinating a collective North Wales response to emphasise the scale of the impact across the region.

Yours faithfully



**Councillor David A Bithell**  
**Deputy Leader of the Council and**  
**Lead Member for Environment and Transport**

cc Ken Skates, Minister for Economy and Transport  
Tim Peppin, Director of Regeneration and Sustainable Development, Welsh Local Government Association  
Iwan Prys Jones, North Wales Economic Ambition Board



## ADRODDIAD I'R IS FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

2 Rhagfyr 2019

---

**Testun:** **DIWEDDARIAD AR Y CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â CHYFYNGIADAU CYFLYMDER 20 MYA AR GYFER ARDALOEDD PRESWYL LEDLED CYMRU**

**Awdur:** **HUW PERCY - PENNAETH PRIFFYRDD, GWASTRAFF A EIDDO** – Cyngor Ynys Mon  
**STEPHEN O JONES** - *Prif Swyddog Trefi Taclus a Trafnidiaeth* – Cyngor Sir Fflint

---

### 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Er mwyn diweddarau'r Is-Fwrdd ar ddatblygiadau

### 2. Penderfyniad a Geisir

2.1 Cefnogaeth i'r swyddogion perthnasol fynychu cyfarfodydd ac adrodd yn ôl.

### 3. Y rheswm dros yr angen am benderfyniad.

3.1 Dim yn berthnasol

### 4 Cefndir ac Ystyriaethau perthnasol

#### CEFNDIR

4.1 Ar 7 Mai 2019, cyhoeddodd y Prif Weinidog y dylai Llywodraeth Cymru geisio mabwysiadu 20mya fel y cyfyngiad cyflymder rhagosodedig ar gyfer ardaloedd preswyl ledled Cymru. Daeth y cyhoeddiad hwn o ganlyniad i faniffesto'r Prif Weinidog ac hefyd o ganlyniad i'r pwysau cynyddol sy'n cael ei roi ar nifer o Awdurdodau Lleol yn dilyn lansiad ymgyrch Mae Ugain yn Ddigon (20's Plenty) Rod King MBE.

4.2 Mae'r newidiadau arfaethedig yn cael eu gyrru gan ddymuniad i annog newid yn y dull o deithio, oddi wrth cerbydau a thuag at gerdded a beicio. Mae'r Llywodraeth yn gweld cyflwyno safon 20mya fel rhan greiddiol o newid diwylliant, gan y byddai yn creu amgylchedd mwy diogel ar gyfer cerddwyr a beicwyr o fewn y briffordd ac yn annog dulliau teithio mwy cynaliadwy a chreu strydoedd sydd yn leoliadau byw.

## **CYNNYDD HYD YMA**

- 4.3 Er mwyn datblygu'r ymrwymiad hwn, mae'r Gweinidog a Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, gyda chymorth swyddogion Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen (GTG) sy'n cynnwys aelodau o amrywiaeth o ddisgyblaethau yn cynnwys diogelwch y ffyrdd, priffyrdd, iechyd y cyhoedd, academyddion a grwpiau sydd â diddordeb megis Mae Ugain yn Ddigon (20's Plenty).
- 4.4 Ers hynny, mae'r GTG wedi gweithredu cyfres o ffyrddau gwaith a reolir gan bedwar Grŵp Prosiect. Pwrpas y Grwpiau Prosiect yw ystyried y gweithredoedd ymarferol sydd eu hangen a'r goblygiadau posibl sy'n gysylltiedig â mabwysiadu cyfyngiad cyflymder 20mya mandadol rhagosodedig ar ffyrdd cyfyngedig ledled Cymru, sy'n cynnwys yn bennaf strydoedd preswyl a ffyrdd mewn ardaloedd adeiledig.
- 4.5 Mae trosolwg o'r ffyrddau gwaith sydd yn rhan o bob un o'r pedwar Grŵp Prosiect wedi eu cynnwys isod er gwybodaeth:

### **Canlyniadau, Gwerthuso a Monitro**

- 4.6 Mae gwaith ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol ar y gweill ar hyn o bryd er mwyn gallu deall y berthynas rhwng y diwydiant ceir a newid hinsawdd. Bydd hyn yn darparu gwaelodlin data gwerthfawr a ddefnyddir er mwyn gallu mesur effeithlonrwydd yr effeithiau tymor byr a thymor hir yn dilyn y newid arfaethedig i'r ddeddfwriaeth.
- 4.7 Bydd hefyd angen i ddangosyddion perfformiad allweddol gael eu cytuno arnynt a'u datblygu gan y grŵp gan y bydd hyn yn hanfodol at ddibenion cyfathrebu a chael cefnogaeth y cyhoedd.

### **Deddfwriaeth a Pholisi**

- 4.8 Adnabod cyllid ac adnoddau digonol er mwyn datblygu 'maen prawf eithriadau' safonol ar gyfer y ffyrdd / ardaloedd hynny na ystyrir yn addas ar gyfer eu cynnwys o fewn cyfyngiad cyflymder 20mya rhagosodedig.
- 4.9 Adnabod cyllid ac arbenigedd digonol a chapasiti er mwyn galluogi pob Awdurdod i resymoli'r broses o gofnodi Gorchmynion cyfyngiadau cyflymder presennol a'u cywirdeb ac adolygiad o ddarpariaethau golau stryd presennol. Bydd hyn yn symleiddio'r broses o hysbysebu tra hefyd yn sicrhau dilysrwydd cyfyngiadau cyflymder y dyfodol.
- 4.10 Adolygu'r goblygiadau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r newid angenrheidiol i'r polisi a'r ddeddfwriaeth a fydd yn cynnwys Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig (TSRGD), yr Adran Drafndiaeth (DFT), Meini Prawf Cyfyngiadau Cyflymder a Rheolau'r Ffordd Fawr.

### **Hyrwyddo a Chyfathrebu**

- 4.11 Mae'r grŵp wedi ymgysylltu â'r Adran Drafndiaeth ac Iechyd Cyhoeddus Llundain er mwyn gallu deall sut y gellid cyflawni strategaeth gyfathrebu effeithiol gan ganolbwyntio ar yr arferion gorau a ddefnyddiwyd mewn ymgyrchoedd blaenorol.
- 4.12 Mae nifer o Grwpiau Ffocws wedi eu sefydlu er mwyn ymchwilio i dechnegau hysbysebu a chreadigrwydd er mwyn cynorthwyo a'r gwaith hyrwyddo.



### Eithriadau, Peirianeg a Gorfodaeth

- 4.13 Mae ffrydiau gwaith sy'n berthnasol i'r gweithgor uchod wedi eu rhannu o dan yr is-benawdau canlynol:

#### Eithriadau

- 4.14 Mae Trafnidiaeth Cymru ar hyn o bryd yn y broses o ddatblygu 'Maen Prawf Eithriadau' er mwyn penderfynu (drwy ganllawiau penodol) pa lwybrau nad ydynt yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer eu cynnwys o fewn y cyfyngiad cyflymder 20mya rhagosodedig.

#### Peirianeg

- 4.15 Bydd y grŵp yn adolygu'r canllawiau dylunio Teithio Actif presennol ynghyd â gweithrediad Cyfyngiadau Cyflymder Trosiannol wrth fynd i mewn i barth 20 mya o ardal Cyfyngiad Cyflymder Cenedlaethol (60mya), gan wneud argymhellion ar gyfer newidiadau lle ystyrir bod hynny'n briodol.

#### Gorfodaeth

- 4.16 Bydd y grŵp yn ymchwilio i / argymhell newidiadau i bolisiau gweithredol presennol yr Heddlu a Gan Bwyll gyda mwy o bwyslais yn cael ei roi ar fentrau Cymunedol ar gyfer Goruchwylio Cyflymder.
- 4.17 Ceisio cyngor arbenigol ar effeithlonrwydd Technoleg Ddeallus i Gyfyngu Cyflymder (ISA) er mwyn rheoleiddio cyflymder cerbydau drwy'r defnydd o GPS ynghyd â'r defnydd o Gamerâu Cyflymder Cyfartalog.
- 4.18 Materion penodol i'w trafod
- A ddylai fod yna newid blanced lle byddai pob gwaharddiad 30mya presennol yn newid i 20mya, heb ystyried o safon dosbarth a swyddogaeth strategol y ffordd?
  - A ddylai rhai ffyrdd cael eu heithrio ac os felly pa griteria ddylai gael ei ddefnyddio pan yn asesu eithriadau?
  - Pa effaith all y newidiadau arfaethedig gael ar ddeddfwriaeth arall gysylltiedig, safonau a chanllawiau (ee M4S)?
  - Beth yw yr oblygiadau ariannol o ran costau arwyddion, costau cyfreithiol, adnoddau staff, gorfodaeth a monitro?
  - Beth fydd yr effaith ar lif traffig, yr economi ac iechyd?
  - A fydd yna ddisgwyliad am fesurau tawelu traffig er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r safon 20mya?
  - Sut fydd llwyddiant yn cael ei fesur (gostyngiad mewn cyflymder, llai o ddamweiniau, mwy o deithio llesol, gwella ansawdd aer)?
- 4.19 **Amserlen Ddangosol** - Gobeithir y bydd ceir cefnogaeth Trawsbleidiol fwyafrifol ar gyfer newid mewn deddfwriaeth cyn Hydref 2020 (drwy bleidlais) gyda'r nod o gychwyn gweithredu'r cynllun yn y gwanwyn 2023, fodd bynnag, gall hyn newid.

## **5. Goblygiadau Ariannol**

- 5.1 Dim ymhlygiadau ariannol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, dim ond amser staff yr awdurdodau lleol unigol ar hyn o bryd. Bydd Grŵp Tasg a Gorffen yn asesu goblygiadau ariannol ar ôl sefydlu cronfa data; rhagwelir costau sylweddol ac mae wedi ei nodi y bydd angen i Lywodraeth Cymru ei gyllido.

## **6. Ystyriaethau Cyfreithiol**

- 6.1 Wedi ei gynnwys o fewn lwyth gwaith y Grŵp Tasgio perthnasol o ran newid deddfwriaeth

## **7. Goblygiadau Personél**

- 7.1 Amser staff ac adnoddau pellach wedi ei gynnwys o fewn lwyth gwaith y Grŵp Tasgio perthnasol

## **8. Effaith ar Gydraddoldeb**

- 8.1 Wedi ei gynnwys o fewn lwyth gwaith y Grŵp Tasgio perthnasol

## **9. Ymgynghori sydd wedi digwydd**

- 9.1 Mae'r Grwp Tasgio cyffredinol yn cynnwys amrediad eang o asiantaethau ac mae Grŵp penodol wedi ei sefydlu fydd yn delio gyda chyhoeddusrwydd ac ymgynghori gyda'r sefydliadau perthnasol wrth symud ymlaen .

---

### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

#### **i. Swyddog Monitro yr awdurdod lletyol:**

Dim sylwadau i'w hychwaengu o safbwynt priodoldeb

#### **ii Swyddog Cyllid yr awdurdod Lletyol:**

Nodaf fod rhan 5.1 o'r adroddiad yn egluro'r ymhlygiadau ariannol



north wales economic ambition board  
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

## ADRODDIAD I'R IS FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

02 Rhagfyr 2019

---

